| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **30 Ionawr 2018** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Penodi Aelod Lleyg Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am benodi aelod lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae penodiadau i'r Pwyllgor Safonau'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Penodi Peter Lamb i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod sy'n dod i ben ar ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf yn 2022.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Rheoliadau Pwyllgorau Safonau 2001, fel y'u diwygiwyd, (y Rheoliadau) yn llywodraethu aelodaeth a thrafodion y Pwyllgor Safonau. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau fod yn wleidyddol gytbwys. Mae'n rhaid i Bwyllgor Safonau gael rhwng pump a naw aelod, sy'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol, Cynghorwyr Sir a chynrychiolaeth o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Mae'n rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelodau lleyg annibynnol bob tro ac mae'n rhaid i'r mwyafrif o'r rhai sy'n bresennol fod yn aelodau lleyg annibynnol er mwyn i'r cyfarfod fod â chworwm.

4.2 Mae saith yn aelod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor hwn, sy'n cynnwys y canlynol: dau Gynghorydd Sir; un Cynghorydd Cymuned; a phedwar aelod lleyg annibynnol.

4.3 Mae swydd ar gael i aelod lleyg annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

4.4 Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi hysbyseb ar gyfer swydd aelod lleyg annibynnol a sefydlu panel o uchafswm o bum aelod (y Panel) i ystyried pob cais a dderbyniwyd a gwneud argymhelliad i'r Cyngor ar y penodiad. Rhaid i'r Panel gynnwys o leiaf un aelod lleyg ac un cynrychiolydd o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Yn ei gyfarfod ar 17

Hydref, penododd y Cyngor y Cynghorwyr Gareth Davies, Richard Mainon a Mark Young i'r Panel.

4.5 Roedd dau ymgeisydd am swydd yr aelod lleyg, ac fe gyfwelwyd y ddau gan y Panel ar 19 Ionawr 2018. Ystyriai'r Panel mai Mr Lamb oedd yr ymgeisydd mwyaf addas ac felly fe argymhellwyd y dylai'r Cyngor ei benodi.

4.6 Mae'r Rheoliadau'n nodi y gall aelod lleyg wasanaethu am gyfnod rhwng pedair a chwe blynedd yn y swydd. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, mae'n bosib' i'r aelod wasanaethu am un cyfnod arall os yw'n cael ei ailbenodi gan y Cyngor. Awgrymir y dylai Mr Lamb wasanaethu tan ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae Pwyllgor Safonau cwbl weithredol a chynrychioliadol ac sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn helpu i ategu gwaith y Cyngor i weithredu ei swyddogaethau democrataidd.

5.2 Mae'r angen sydd wedi'i nodi yn y Mesur i benodi aelod lleyg i fod ar y Pwyllgor yn orfodol. Byddai methu â phenodi aelod lleyg yn gwneud trafodion y Pwyllgor yn annilys.

## 6. Faint fydd yn gostio a sut fydd yn effeithio ar y gwasanaethau eraill?

Bydd hawl gan yr aelod lleyg, o dan adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i dâl dyddiol ac i hawlio costau teithio fel y nodir yn y gyfraith o dro i dro.

## 7. Beth yw prif ganlyniadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid oes unrhyw oblygiadau o ran lles o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio cyhoeddus, agored ar gyfer y penodiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflawni gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?

Nid oes unrhyw ofyn statudol am ymgynghori ar y penodiad a geisir drwy'r adroddiad hwn. Mae gofyn statudol i hysbysebu'n gyhoeddus am aelodau lleyg annibynnol ar y Pwyllgorau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Bychain yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad ac fe fyddant yn cael eu talu o adnoddau sy'n bod eisoes.

**10. Pa risgiau sydd yn bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

O ran y Pwyllgor Safonau, mae'n amod yng Nghyfansoddiad y Cyngor bod angen pedwar aelod lleyg. Y risg o beidio â phenodi aelodau i'r Pwyllgor Safonau yw y gall llai o aelodau gynyddu'r tebygolrwydd na fydd gan y Pwyllgor gworwm.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001, fel y'u diwygiwyd.